

43)Cyngor Cymuned Llanfihangel ar arth/Community Council:cyfarfod misol/monthly meeting.Yr Hen Gapel,Pencader Ebrill 18ed (18/04/17)---7.15pm

---

Cynghorwyr yn bresennol/Councillors present: Val Davies,Glyn Jones,Raymond Lewis,Haulwen Lewis,Eirian Jones, Marc Jones,Annette Davies,Yvonne Griffiths,Sian Thomas,C.Sir Linda Evans.

Clerc: Anita Evans, Ymddiheuriadau:Lynn Evans,Melfyn Evans. Absennol:K.Lewis. Aelodau'r WI-M.Thomason,M.Pratt. Other Vsitors:1

---

1)Croesawodd Val Davies(cadeirydd)bawb i'r cyfarfod,a throsglwyddodd yr awennau i Eirian Jones a gyflwynodd Ian Thomas o'r elusen Cariad.Mae'r elusen hon yn dosbarthu defibrillators mewn ardaloedd,a chawsom wybodaeth eang am y gwaith gwerthfawr sy'n cael ei wneud yn achub bywydau gyda help y cyfarpar yma.Diolchwyd iddo cyn gadael.I ddilyn cafwyd trafodaeth gyda aelodau Sefydliad y Merched,a byddan nhw, a'r Cyngor Cymuned yn mynd ymlaen i geisio sicrhau cyllid.Val Davies(chairman)gave a word of welcome,and passed the meeting on to Eirian Jones who introduced Ian Thomas from the charity Cariad.This charity aims to place defibrillators in towns and villages,and Mr.Thomas explained what a useful tool this product is in the purpose of saving lives.He was thanked before leaving.There was a discussion with the members of the WI,and both the Pencader branch and the Community Council will work together to access funding.WI members were thanked for attending before they left the meeting.

2)Croesawyd Glyn Jones nôl ar ôl ei law-driniaeth,a dymunwyd yn dda i Lynn Evans sy wedi bod yn yr ysbyty.

3)Doedd dim Heddlu'n bresennol,a neb yn datgan diddordeb/no police present,and no declarations of interest.

4)Cofnodion mis Mawrth:cafwyd yn gywir/March minutes found to be correct—prop.E.Jones;sec.S.Thomas.

5)Materion yn codi/Matters arising from March minutes:

a)Cader Heulog --e.bost wedi ei dderbyn 23/03 oddiwrth Kirsty McIntyre am fater y coed yn pydru --bydd Noel Jones o'r Adran Gynnal a Chadw yn dychwelyd ym Medi i wneud arolwg/ deteriorating trees in Marshlands will be re-inspected in September.

b)Bethan Edwards --wedi anfon neges i ddweud ei bod yn cysylltu â'r Cyngor Sir yn gyson er mwyn iddynt lanhau'r ffordd ar bwys mynedfa'r Fferm Wynt newydd/B.Edwards is in constant contact with the C.Council re road cleaning.

c)Mynwent Troedyrhiw: Llyfrgell Genedlaethol heb ateb e-bost y Clerc am waith papur y Fynwent.

ch)U.LL.Cymru-cyfarfod pwyllgor ardal—Clerc wedi bod ac wedi gwneud adroddiad byr ar neges Dafydd Llewelyn,Comisiynydd yr Heddlu/Clerk gave a short report on the Police Commissioner's message in a recent meeting.

d) Bro'r Hen Wr—problemau'n parhau-Val Davies yn cadw cysylltiad a'r deiliaid a Gary Clarke/problems in Bro'r Hen Wr have not been solved;Val Davies is in constant touch with residents and Gary Clarke(C.C.C.).

44) 6) Ariannol/financial:- cafwyd yr adroddiad yn gywir/statement found to be correct

(prop.H.Lewis;sec.A.Davies).Biliau i'w talu/bills to pay:cyflogau a HMRC/wages:£1,259.52;Dŵr Cymru(Alltwalis)-£15.36;Dŵr Cymru(Pencader)--£18;Dyfed Alarms(annual fee)-£90.Pasiwyd eu talu—prop.Y.Griffiths,sec.A.Davies.

---

7) Cynllunio/Planning: (gadawodd C.Sir L.Evans/left the room)

W/35346---Rhydiau,Pencader—tynnu garej/demolition of garage for Mr.a Mrs R.Harries.

Dim gwrthwynebiad/no objection).

---

8) Gohebiaeth/correspondence:C.Sir Gâr/C.C.Council:

a)Is-Adran Gweinyddiaeth a'r Gyfraith yn dymuno cael gwyboeth am rif y datganiadau buddiannol yn ystod 2016-17 a hefyd nifer y Cynghorwyr a gafodd hyfforddiant Côt Ymddygiad/information is needed on the number of declarations made by Councillors during 2106-17,and also number of Councillors who received Code of Conduct Training.

b)Swyddfa Etholiadau-canllawiau ar gyfer cyfethol/Elections Office-advice on co-opting new members.

c)Cofrestr Etholwyr—gair o gyngor fod yn rhaid ei drin yn ofalus/Electoral Register—a word of advice from the Elections Office to keep the register safely,and to use only to ascertain that a Parishioner is eligible to vote.

ch)Adran Golau Stryd—am gyfeirio at gamgymeriad gyda'r bil cyntaf—symiau yn y golofn anghywir.

d)Poster am gasglu sbwriel dros gwyliau'r banc/arrangements for refuse collection over the Bank holidays.

Eraill/other:

dd)Diolch/thanks for our donations from:Bobath Cymru,'Steddfod Llanfihangel ar arth a'r Plwyf.

e)Cymdeithas yr Iaith—cyfarfod yn Llyfrgell Caerfyrddin ar Iechyd a Gofal yn Gymraeg.

---

9) U.F.Arall/A.O.B:

G.Jones---twll ar yr hewl ar bwys Tabernacl;draen Penbanc wedi llanw—dŵr ar y ffordd/still problems on the road by Tabernacl Chapel and Penbanc.

E.Jones—palmant angen sylw ar bwys siop y sgwâr,Pencader/no improvements to pavement by the shop,Pencader junction.

S.Thomas—ar bwys Whithien,Gwyddgrug—twll a gratin angen sylw/repairs needed by Whithien;are the white gates by the new speed humps going to be painted?

A.Davies—Lôn y Felin,Pencader—plant wedi bod yn cynnu tân ar yr hewl—bydd y PCSO yn cael gwybod;children have been lighting a fire on the road—PCSO to be informed.

H.Lewis—problem yn y Fynwent pan mae glaw trwm –dŵr yn rhedeg fewn i'r Cyfleusterau.Bydd angen gofyn i N.Lloyd agor rhewin o gwmpas y safle;cais am gafn blodau yn Nolgran;blwch postio pen pellaf Dolgran -pobl yn methu mynd at y blwch oherwydd bod car wedi ei barcio—pwy sy berchen y tir?a culvert is needed in the Cemetery to stop water running into the toilet block;access to post box in Dolgran is difficult because of parked car.

45)U.F.Arall: AOB(contd)

Y.Griffiths: golau fflachio ar bwys Bro Nantlais/arwydd 30mya ochr draw Meurlyn heb eu cywiro;still awaiting flashing 30mph sign by Bro Nantlais to be repaired,and speed sign opp.Meurlyn,Pencader to be re-positioned.Also asked if it would be possible to have a rubbish bin in the lay-by before Penrheol where lots of vehicles pull in.

Clerc—atgoffa fod y cyfarfod blynyddol mis nesa/reminded Councillors of the AGM next month.

V.Davies—twll ar y ffordd ar bwys Bribwll.

C.Sir L.Evans—yn anffodus mae ein cais am lwybr i Dremle wedi methu ETO.

Darllenwyd llythyr am gais ariannol oddiwrth Morfudd Jones,ar ran Pwyllgor yr Hen Gapel,sy'n trefnu arddangosfa o'r model Gorsaf Dren Pencader,a hanes y rheilffordd ar benwythnos Llungwyn.Cynnigiodd Eirian Jones ein bod yn trafod y cais oherwydd bod amser yn brin.(Gadawodd H.Lewis yr ystafell achos ei bod yn drysorydd y pwyllgor).Cynnigiodd E.Jones gyfrannu £75 ac eiliodd Y.Griffiths.We will make a donation of £75 to the committee of Yr Hen Gapel to help set up an exhibition of railway history,and the model of Pencader Station on Whitsun weekend.

---